O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 111 (Cy. 28)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A4060 a'r A465 (Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Ionawr 2011* |
| *Yn dod i rym* | *31 Ionawr 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon - Man i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn**(2)**.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Ionawr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A4060 a'r A465 (Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:30 o'r gloch ar 31 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk roads*") yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A4060 a'r A465 yn Nowlais Top ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu at Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7 ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar hyd y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny pan fydd y cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt ar waith.

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 21 Ionawr 2011

**J COLLINS**
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; Amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau

Y darn hwnnw o gefnffordd yr A4060 sy'n ymestyn o Gylchfan Mountain Hare i Gylchfan Dowlais.

Y darnau cyfan o ffyrdd cyswllt yr A465 tua'r dwyrain a thua'r gorllewin rhwng Cylchfan Dowlais Top ar yr A465 a Chylchfan Dowlais ar yr A4060.

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder 40 mya

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A4060 sy'n ymestyn o bwynt 1200 o fetrau i'r de o'r linell ildio ar Gylchfan Dowlais ar yr A4060 hyd at y linell ildio ar y Gylchfan honno.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 1200 o fetrau i'r dwyrain o'r fynedfa i Gylchfan Dowlais ar yr A4060 hyd at y fynedfa i Gylchfan Dowlais Top ar yr A465.

### ATODLEN 3
### Dim goddiweddyd a Therfyn Cyflymder 10 mya

Y cyfan o'r gerbytffordd gylchredol ar Gylchfan Dowlais ar yr A4060.